# Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

## Y Dyfodol

# Pam fod angen newid?




1. NEWID YN Y PETHAU SY'N BWYSIG I BOBL IFANC GWYNEDD



2. LLAI O ARIAN
3. POLISI LLYWODRAETH



4. RECRIWTIO A HYFFORDDI STAFF

# Beth sy'n bwysig i bobl ifanc Gwynedd?

Datblygu sgiliau newydd ac ennill hyder

Rhywle i fynd a chymryd rhan

Hwyl a chyfarfod ffrindiau

Cyngor wrth ddewis beth i wneud ar ôl gadael ysgol

Lle diogel i siarad gyda phobl sy'n gallu helpu

**Sylwadau Arolwg Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd (Ionawr 2017)**



FEDRWN NI DDIM AROS YR UN PETH ...
BETH ALLWN NI EI WNEUD?

# Rydym wedi ystyried...

1. Cadw'n AGORED 10 Clwb Ieuenctid a LLAI o grant i grwpiau e.e.



Y SEFYLLFA BRESENNOL
Gwasanaeth Ieuenctid
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Aelwydydd
Uwch Adrannau Urdd
Blaenau
Porthma
Barm
Do
A5
A487
A494
10km


OPSIWN 1
Gwasanaeth Ieuenctid
?
Bangor
Nefyn
Aberdaron
Barmouth
10km

# RYDYM WEDI YSTYRIED...

2. Cadw'n AGORED 14 Clwb Ieuenctid a DIM grant i grwpiau e.e.


Y SEFYLLFA BRESENNOL
Gwasanaeth Ieuenctid
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Aelwydydd
Uwch Adrannau Urdd
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Pwllheli
Penygroes
Barmouth
Dolgellau
5 10km


OPSIWN 2
Gwasanaeth Ieuenctid
?
A487
A5
Nefyn
Aberdaron
Barmouth
A494
5
10km

# Ond os wnawn ni hyn, mae pobl ifanc wedi dweud ...

Mae'r clwb yn rhy bell - mae'n costio gormod i deithio!

Dwi'n poeni byddai llai o weithgareddau os ydy'r grant yn mynd yn llai!

Dwi'n rhy hen i glwb!

Mae'n well gen i gymryd rhan mewn gweithgareddau!

Dwi eisiau siarad efo Gweithiwr Ieuenctid pan dwi angen - dim mewn clwb yn unig!




# Ond os wnawn ni hyn, mae'r asesiad opsiynau ac effaith cydraddoldeb yn dangos ...

Bydd niferoedd uwch o bobl ifanc yn methu cael mynediad i'r Gwasanaeth - oherwydd ein bod yn bresennol mewn RHAI cymunedau yn unig, a'u pellter teithio

Ni fyddwn yn cyfarch disgwyliadau LLywodraeth Cymru - Strategaeth Gwaith Ieuenctid na'r Fframwaith Ymgysylltiad Ieuenctid

Byddwn yn dal i fethu hyfforddi a cynnal y gweithlu.

# FELLY, BETH AM DRIO HYN I'R DYFODOL?




## GAN FOD ANGHENION POBL IFANC YN NEWID WRTH DYFU FYNY, GALLWN GYNNIG:

1. Rhaglen o weithgareddau hwyliog i bobl ifanc 11 - 19 oed.

2. Rhaglen cymorth un i un i bobl ifanc 16 - 25 oed.

# 1. Rhaglen o weithgareddau hwyliog 11 - 19 oed

- **Aelodaeth AM DDIM.**
- **Gweithgareddau a Phrosiectau Hwyliog:**
  - ✓ Drwy'r ysgol
  - ✓ Yn y gymuned


Bangor
Blaenau Ffestiniog
Pwllheli
Bala
... byddem yn dod a'r
gweithgareddau atoch chi!

# Dyma'r math o weithgareddau fydd ar gael:



Cwrs Coginio

Prosiect Iechyd



GwirVol

Prosiect Gwirfoddoli


Cwrs Cymorth Cyntaf




DofE

Clwb Dug Caeredin

Prosiect Diogelwch y We






Clwb Awyr Agored

Prosiect Celf a Chrefft



# Ac yn gyfle i:

- Ddatblygiad personol
- Ennill achrediadau a datblygu sgiliau
- Gael hwyl gyda ffrindiau
- Gael cefnogaeth a help Gweithiwr Ieuenctid
- Gwella Iechyd a Lles

Byddwch yn gallu cysylltu a siarad gyda Gweithiwr Ieuenctid drwy'r ysgol!



## A byddwn yn cydweithio gyda grwpiau eraill, fel ...

Clybiau Hoci

Clybiau Pêl-droed


Clybiau Rygbi

Clybiau Nofio

# 2. Rhaglen Cymorth Arbennig 16 - 24 oed

Ar gael i bobl ifanc dros 16 oed sydd DDIM mewn:


- Addysg
- Gwaith
- Hyfforddiant




# Byddwn yn ...



- Rhoi cymorth un i un.
- Cynnig rhaglen Datblygiad Personol.
- Helpu i ddod dros y rhwystrau sy'n eu nadu rhag symud i addysg neu waith.


Rydym yn credu bod y cynllun newydd yn sicrhau Gwasanaeth Ieuenctid sy'n gallu ymateb i anghenion pobl ifanc Gwynedd i'r dyfodol!



# #DweudEichDweud



Ymgynghoriad tan

22 o Ragfyr.